Pembrokeshire Public Services Board

Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Benfro

**COFNODION BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS SIR BENFRO**
**Dydd Mawrth, 11 Gorffennaf 2023, am 10.00am (cyfarfod Microsoft Teams)**

**Yn bresennol:**

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd Neil Prior | Cyngor Sir Penfro (Cadeirydd) |
| Phil Kloer | Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda (Is-gadeirydd) |
| Darren Mutter | Cyfarwyddwr Gofal Cymdeithasol Dros Dro, Cyngor Sir Penfro |
| Caroline Drayton | Rheolwr Gweithrediadau, Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Barry Walters | Pennaeth, Coleg Sir Benfro (gadael am 11.30am) |
| Mydrian Harries | Prif Swyddog Cynorthwyol – Cyfarwyddwr Adnoddau, Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Iwan Thomas | Prif Swyddog Gweithredol, PLANED |
| Tegryn Jones | Prif Weithredwr, Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro |
| Sue Leonard | Prif Swyddog, Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro (PAVS) (cyrraedd am 10.40am) |
| Y Cynghorydd John Davies | Is-Gadeirydd Awdurdod Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| David Thomas | Is-Gadeirydd, Un Llais Cymru |
| Claire Germain | Dirprwy Gyfarwyddwr Trawsnewid Llywodraeth Leol a Phartneriaethau, Llywodraeth Cymru |
| Sophie Buckley | Hwylusydd Iechyd a Llesiant y Trydydd Sector, Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro (PAVS) |
| Y Prif Arolygydd Dyfed Bolton | Heddlu Dyfed Powys |

*Cymorth/Ysgrifenyddiaeth*

| | |
|---|---|
| Nick Evans | Rheolwr Polisi a Phartneriaethau Corfforaethol, Cyngor Sir Penfro |
| Lynne Richards | Swyddog Partneriaethau Corfforaethol, Cyngor Sir Penfro |
| Amy Richmond-Jones | Rheolwr Ymgysylltu, Cynllunio a Pherfformiad, Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru |

**Ymddiheuriadau**

| | |
|---|---|
| Will Bramble | Prif Weithredwr, Cyngor Sir Penfro |
| Richard Brown | Prif Weithredwr Cynorthwyol, Cyngor Sir Penfro |
| Alison Perry | Cyfarwyddwr Comisiynu, Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu |
| Anna Malloy | Rheolwr Ymgysylltu â Rhanddeiliaid a Chyfathrebu, Awdurdod Porthladd Aberdaugleddau |
| Kelvin Barlow | Rheolwr Rhaglen Partneriaeth Ranbarthol, Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru |

Dechreuodd y cyfarfod am 10.05am

**1. Croeso ac ymddiheuriadau**

Croesawodd NP bawb i'r cyfarfod. Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y rhai a restrir uchod.

**2. Cofnodion o'r cyfarfod diwethaf / cofnod camau gweithredu**

Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 25 Ebrill 2023 yn gofnod cywir. Roedd yr holl gamau gweithredu o'r cyfarfod wedi'u cwblhau.

**3. Sesiwn 'Sbotolau' y Cynllun Llesiant – Prosiect Tlodi**

Cyflwynodd DM fersiwn derfynol y Strategaeth Tlodi ac amlinellodd y broses ddatblygu. Diolchodd i Gemma Baker am ei gwaith yn datblygu'r ddogfen.

Roedd yr adroddiad ar gyfer y prosiect Cadw'n Gynnes, Cadw'n Iach a oedd yn bwydo i mewn i'r strategaeth wedi'i ohirio, a wnaeth hefyd ohirio cwblhau'r strategaeth. Roedd manylion o'r adroddiad hwn bellach wedi'u cynnwys a byddai adroddiad Cadw'n Gynnes, Cadw'n Iach yn cael ei ddosbarthu ar ôl y cyfarfod.

Yna amlinellodd DM brif dasgau'r Gweithgor Tlodi:

- Datblygu'r strategaeth (cwblhawyd)
- Bwrw ymlaen â chamau amser real dros gyfnod gaeaf 2023-23 gyda'r cyllid sydd ar gael (cwblhawyd)
- Codi ymwybyddiaeth drwy dynnu sylw at y mater i'r sefydliadau hynny sy'n gallu cefnogi gweithgarwch i leihau tlodi, ac amlygu i'r rhai mewn tlodi pa wasanaethau sydd ar gael i'w helpu
- Rhoi'r cynllun gweithredu ar waith

Roedd y ddau bwynt cyntaf wedi'u cwblhau, a gofynnodd DM i bartneriaid gefnogi pwyntiau tri a phedwar wrth gynnal egni a chanolbwyntio ar gyflawni'r camau gweithredu yn y strategaeth.

Yna cododd DM y mater o ddigwyddiad lansio, a drafodwyd yn fyr yng nghyfarfod diwethaf y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (PSB). Dywedodd ei fod yn deall bod pryderon wedi'u codi y byddai cynnal digwyddiad yn ddi-chwaeth, ond rhoddodd sicrwydd i bartneriaid y byddai'r digwyddiad yn gyfle i godi ymwybyddiaeth, amlygu cyfleoedd ac arddangos yr hyn sydd gan elusennau i'w cynnig, ac na fyddai'n 'ddathliad'. Dywedodd DM fod siaradwyr wedi'u nodi.

Trafodwyd yn fyr yr opsiwn o gynnal digwyddiad lansio. Awgrymodd IT y dylid cyfeirio ato fel uwchgynhadledd yn hytrach na digwyddiad lansio a chael addewid i bartneriaid ymrwymo iddo yn y dyfodol. Dywedodd DM y byddai'n codi hyn gydag aelodau'r grŵp tlodi yn eu cyfarfod nesaf ac yn datblygu fformat awgrymedig ar gyfer digwyddiad i'w gymeradwyo gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

Yna trafododd y partneriaid y strategaeth, a chodwyd y pwyntiau canlynol:

- Dywedodd TJ ei fod o'r farn nad oedd nifer o weithgareddau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wedi'u rhestru ac nad oedd llais cyfunol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wedi dod drwodd. Atebodd DM fod y strategaeth yn ddogfen ddeinamig ac felly y gellid ychwanegu camau gweithredu ychwanegol. O ran gweithredu ar y cyd gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, y cam gweithredu hyd yma oedd datblygu'r strategaeth. Nododd mai un o'r prif faterion yn y sir yw tlodi mewn gwaith a bod pob partner y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn gallu gwneud rhywbeth tuag at gynorthwyo gweithwyr mewn tlodi mewn gwaith.

- Gofynnodd PK sut roedd y grŵp tlodi'n casglu'r hyn a ddysgwyd o'r tu allan i Sir Benfro. Dywedodd DM y byddai'r grŵp yn edrych ar ddatblygiadau ac ymchwil mewn meysydd eraill er mwyn datblygu'r cynllun gweithredu ymhellach.

- Gofynnodd CG a ellid rhannu'r ddogfen strategaeth yn ehangach o fewn Llywodraeth Cymru i gefnogi'r hyn y maent yn ei gynnig, gan nodi bod Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i'r agenda tlodi. Rhannodd ddolen i Strategaeth Tlodi Plant ddrafft Llywodraeth Cymru a gofynnodd i bartneriaid y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ddarparu sylwadau / adborth.

- Tynnodd MH sylw at y cysylltiad amddifadedd cymdeithasol â risgiau sy'n ymwneud â thân yn y cartref a gofynnodd beth y gallai'r risgiau i gyflenwi fod wrth fwrw ymlaen i'r dyfodol y gallai'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus eu cefnogi. Gofynnodd hefyd a oedd hyder bod cyllid i gyflenwi'r strategaeth. O ran risgiau, dywedodd DM fod yna dirwedd newidiol o faterion a disbyddiad o adnoddau i wneud y gwaith yr oedd y grŵp wedi bwriadu ei gyflawni. O ran cyllid, dywedodd fod y cyllid a ddefnyddiwyd yn 2022-23 eisoes wedi'i amlinellu a'i fod yn gobeithio y byddai rhagor o gyllid yn dod oddi wrth Lywodraeth Cymru.

- Soniodd SL hefyd y dylid adolygu'r ddogfen yn rheolaidd i gynnwys camau gweithredu / gweithgareddau newydd. Awgrymwyd adolygiad blynyddol.

O ran dull cyfathrebu cyfunol i hyrwyddo'r strategaeth a grybwyllwyd gan TJ a BW, dywedodd DM ei fod yn ystyried sefydlu is-grŵp cyfathrebu lefel 'Efydd' o'r prif weithgor tlodi sy'n canolbwyntio'n benodol ar gyfathrebu ac y byddai'n trafod hyn gyda'r gweithgor yn eu cyfarfod nesaf.

Cymeradwyodd partneriaid y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus fersiwn derfynol y strategaeth.

## 4. Diweddariadau prosiect y Cynllun Llesiant

Fel y trafodwyd mewn cyfarfodydd blaenorol, byddai sesiynau 'sbotolau' ar un maes prosiect Cynllun Llesiant yn cael eu cynnal ym mhob cyfarfod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus drwy gydol y flwyddyn. Cytunwyd hefyd y byddai gofyn i'r arweinwyr prosiect hynny nad oedd yn cymryd rhan yn y sesiynau sbotolau gwblhau adroddiad ysgrifenedig byr ar gyfer pob cyfarfod i roi diweddariad ar weithgarwch y prosiect ers cyfarfod diwethaf y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

Gan fod y brif sesiwn sbotolau wedi bod ar y strategaeth dlodi, darparwyd diweddariadau byr gan NP ar y prosiect Cryfhau Cymunedau a gan CD ar y prosiectau ar thema'r Amgylchedd.

Yr amserlen arfaethedig ar gyfer sesiynau sbotolau am weddill y flwyddyn oedd:

- 26 Medi 2023 – *Prosiect Cryfhau Cymunedau*
- 28 Tachwedd 2023 – *Mynd i'r Afael â Newid Hinsawdd a'r Argyfwng Natur*

Dywedodd CD y byddai yn cynnig pa rai o'r prosiectau ar thema'r Amgylchedd fyddai'n dod i'r sesiwn sbotolau ym mis Tachwedd yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

**5. Unrhyw fater arall**

Nododd NE fod Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda wedi gofyn am gynrychiolydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i fynychu cyfarfodydd y Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid yn y dyfodol. Byddai'n cylchredeg yr e-bost er gwybodaeth a gofynnodd i unrhyw bartneriaid y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a oedd â diddordeb mewn enwebu eu hunain i fynychu i gysylltu ag ef.

Nid oedd unrhyw fater arall

Daeth y cyfarfod i ben am 11.35am.

**Cofnod camau gweithredu**

| Rhif | Tud. | Cam gweithredu | Dyddiad targed | Perchennog | Datrysiad |
|---|---|---|---|---|---|
| **1** | 2 | Cylchredeg adroddiad Cadw'n Gynnes, Cadw'n Iach a dolen i Strategaeth Tlodi Plant ddrafft Llywodraeth Cymru | Cyn gynted â phosibl | LR | CWBLHAWYD |
| **2** | 3 | Cylchredeg e-bost yn gofyn am enwebiadau gan bartneriaid i fynychu cyfarfodydd Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda. Partneriaid â diddordeb i ymateb i NE | Cyn gynted â phosibl | NE/PAWB | CWBLHAWYD |